

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**  
**DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi  
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr  
2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Ian  
Hodge. Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose, a Roy Wakelam

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd Cyngor Sir y Fflint  
ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden), a'r Cynghorydd  
Ray Hughes

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Ryan McKeown ar ran y Cynghorydd Richard  
Lloyd

**CYFRANWYR:**

Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio), y Cynghorydd Chris  
Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd), y  
Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet  
Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Gludiant Ranbarthol), y Cynghorydd David  
Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), y Cynghorydd Paul  
Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cadarn yn cynnwys  
Gwerth Cymdeithasol a Chaffael), y Cynghorydd Christine Jones (Aelod Cabinet  
y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd  
a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Cyllid  
Corfforaethol, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Darparu  
Gwasanaethau, Rheolwr Cludiant, Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr  
Gwasanaethau Rheoleiddio, a'r Prif Gyfrifydd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion  
Gwasanaethau Democrataidd

**35. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim

**36. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref a 15 Tachwedd  
2022.

**Materion yn Codi**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15  
Tachwedd a'r drafodaeth a gafwyd, fel yr oedd wedi'i chofnodi ar dudalen 15 ar y  
Rhaglen, ynglŷn â thrwyddedau faniau. Gofynnodd y Cynghorydd Peers am  
gadarnhad bod y Polisi wedi'i newid fel y cytunodd y Pwyllgor. Cadarnhaodd y

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) fod y Polisi wedi'i newid gyda'r geiriad diwygiedig yn ôl y cais.

Cynigiwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref a 15 Tachwedd 2022 gan y Cynghorydd Mike Peers ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ian Hodge.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## **37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu i'w hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a oedd wedi'u trefnu i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a oedd i gael ei gynnal ar 10 Ionawr 2023 a soniodd am yr eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Rhoddodd yr Hwylusydd hefyd ddiweddariad ar gynnydd i drefnu gweithdy ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ym mis Chwefror i ystyried parcio y tu allan i'r ysgol.

Gwahoddwyd yr Aelodau i godi unrhyw eitemau eraill i'w cyflwyno i'w cynnwys ar y Rhaglen.

Rhoddodd yr Hwylusydd ddiweddariad am waith ar y gweill ar yr eitemau oedd yn weddill yn yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y bwriad o gynnal gweithdy ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ym mis Chwefror i fynd i'r afael â pharcio cerbydau y tu allan i ysgolion a gofynnodd a fyddai modd cynnal hwn cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 7 Chwefror 2023. Cadarnhaodd yr Hwylusydd bod y cyfarfod ar y cyd ym mis Chwefror i roi gwybod i'r Pwyllgorau Craffu am y sefyllfa bresennol a phennu ffordd ymlaen.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Mike Peers.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**38. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 15 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**39. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A GOSOD CYLLIDEB 2023-24 (CAM 2)**

Cynigiwyd symud i 2<sup>il</sup> Ran y cyfarfod gan y Cynghorydd Mike Peers ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ian Hodge.

Darparwyd cyflwyniad ar y cyd gan Brif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), a Phrif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- pwrpas a chefnidir
- atgoffa am sefyllfa Cyllideb y Cyngor
- pwysau costau Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- crynodeb o bwysau costau Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- toriadau i gyllideb Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- arbedion effeithlonrwydd Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi yn y gorffennol
- her cyllideb 2023/24 – ein dull o ymdrin â hi
- crynodeb – toriadau i gyllideb Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- pwysau costau Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- crynodeb o bwysau costau Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- toriadau i gyllideb Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- arbedion effeithlonrwydd Gwasanaethau Stryd a Chludiant yn y gorffennol
- her cyllideb 2023/24 – ein dull o ymdrin â hi
- crynodeb – toriadau i gyllideb Gwasanaethau Stryd a Chludiant
- camau nesaf ar gyfer y broses o osod cyllideb 2023/24
- proses y gyllideb – Cam 2
- proses y gyllideb – Cam 3 (Terfynol)

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau gan yr Aelodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Hodge yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Dan Rose.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi pwysau costau portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi;
- (b) Nodi opsiynau portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi i gwtogi cyllidebau;

- (c) Nodi pwysau costau'r portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant; a
- (d) Nodi opsiynau'r portffolio Gwasanaethau Stryd a Chludiant i gwtogi cyllidebau.

**40. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.40am)

.....  
**Cadeirydd**